# Hysbysiad Preifatrwydd
# Arolwg Cydweithwyr COVID-19

Mae’r hysbysiad preifatrwydd hwn yn dweud wrthych beth i'w ddisgwyl pan gaiff eich gwybodaeth ei phrosesu gan y Tîm Profiad Staff. Gallwch gysylltu â’r tîm gan ddefnyddio’r manylion cyswllt canlynol:

Pencadlys y Bwrdd Iechyd
1, Porthfa Talbot,
Parc Ynni Baglan,
Baglan,
Port Talbot,
SA12 7BR

Ffôn: 01639 683344, Estyniad: 43553
E-bost : SBU.StaffExperienceTeam@wales.nhs.uk

**Pam gallwn brosesu eich gwybodaeth?**

Bydd Tîm Profiad Staff Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn rheoli’r holl ddata a gasglwyd o gwblhad yr arolwg #SiapioBIPBA #ShapingSBUHB sydd yn canolbwyntio ar fesur profiadau cydweithwyr o les a gweithio gartref. Rhennir unrhyw wybodaeth a rennir â rhanddeiliaid allweddol mewn ffordd anhysbys. Bydd rhai o’r rhanddeiliaid allweddol yn cynnwys: aelodau’r Tîm Gweithredol, Tîm Iechyd a Lles Staff, Fforwm Partneriaeth Leol, Adran Dysgu a Datblygu Sefydliadol, ac yn y blaen. Efallai y caiff rhai o’r canfyddiadau eu rhannu ar lefel uwch drwy fwletinau ar y fewnrwyd, ac ar ffurfiau cyfathrebu eraill.

Gallwn brosesu’ch gwybodaeth bersonol yn gyfreithiol o dan Erthygl 6 Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) gan fod y prosesu’n angenrheidiol i ni gyflawni ein swyddogaethau swyddogol fel corff GIG. Bydd achlysuron lle byddwn yn dibynnu ar seiliau cyfreithlon fel pryd fydd angen y prosesu er mwyn i ni gydymffurfio â’r gyfraith.

Gallwn brosesu gwybodaeth o gategori arbennig yn gyfreithiol o dan Erthygl 9 GDPR gan fod y prosesu’n angenrheidiol i bwrpasau rheoli systemau a gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, neu’n angenrheidiol i bwrpasau cyflawni rhwymedigaethau ym maes cyflogaeth a nawdd cymdeithasol a chyfraith amddiffyniadau cymdeithasol.

## Ar gyfer pa bwrpas ydyn ni'n ei phrosesu?

Pwrpas yr arolwg hwn yw canfod sut mae cydweithwyr yn teimlo yn ystod yr achos COVID-19 er mwyn deall pa gefnogaeth sydd angen arnynt i helpu i leihau'r straen y maent yn teimlo, a helpu i gynllunio'r gweithlu. Mae'r arolwg hwn yn canolbwyntio ar eu lles a'u profiad o weithio gartref (boed eu bod yn gweithio gartref yn barod, neu ar fin dechrau gweithio gartref).

Nid oes angen dynodwr unigryw ar yr arolwg i'w gwblhau. Mae'n holiadur hunan-orffenedig a ddarperir i bob gweithiwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, gan gynnwys gwirfoddolwyr. Gall cydweithwyr sydd â phryderon eu codi gyda'u rheolwr llinell neu'r Tîm Profiad Staff.

## Am ba mor hir fyddwn yn ei chadw?

Ni fyddwn yn storio gwybodaeth bersonol yn hirach nag sydd yn ofynnol. Caiff gwybodaeth bersonol ei hanonymeiddio pan na fydd ei hangen ar fformat canfyddadwy rhagor. Caiff ei storio yn unol â chanllawiau storio'r GIG.

## Â phwy fyddwn ni'n rhannu eich gwybodaeth?

Efallai bydd rhai achlysuron lle byddwn yn rhannu eich gwybodaeth ag eraill. Gwneir hyn ond pan fydd seiliau cyfreithlon i'w wneud, ac yn unol â'r pwrpasau a restrir uchod.

Lle bydd yn ofynnol, gallwn rannu eich gwybodaeth â'r canlynol:

- Adrannau eraill o fewn y Bwrdd Iechyd;
- Gyda Byrddau Iechyd GIG Cymru eraill i feincnodi; a
- Gyda chyrff cyhoeddus, cyrff rheoleiddiol neu weithwyr cyfreithiol proffesiynol.

## Sut allaf gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data?

Amlinellir manylion cyswllt y Swyddog Diogelu Data isod:


Swyddog Diogelu Data<br>
Pencadlys, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe<br>
1 Porthfa Talbot<br>
Port Talbot<br>
SA12 7BR

Ffôn: 01639 683336
E-bost: SBU.Confidentialityissues@wales.nhs.uk

**Beth yw eich hawliau mewn perthynas â'ch data personol?**

O dan y ddeddf diogelu data, mae gennych hawliau y mae'n rhaid chi fod yn ymwybodol ohonynt. Mae'r hawliau sydd ar gael i chi yn dibynnu ar ein rheswm dros brosesu'ch gwybodaeth.

- Eich hawl i fynediad
  Mae gennych yr hawl i ofyn i ni am gopïau o'ch gwybodaeth bersonol. Mae'r hawl hon bob tro'n weithredol. Mae yna rai eithriadau, sydd yn golygu na fyddwch bob tro'n derbyn yr holl wybodaeth rydym yn ei phrosesu.

- Eich hawl i gywiriad
  Mae gennych yr hawl i ofyn i ni gywiro gwybodaeth sydd yn anghywir. Hefyd mae gennych yr hawl i ofyn i ni gwblhau unrhyw wybodaeth anghyflawn. Mae'r hawl hon bob tro'n weithredol.

- Eich hawl i ddilead
  Mae gennych yr hawl i ofyn i ni ddileu'ch gwybodaeth bersonol mewn amgylchiadau penodol.

- Eich hawl i gyfyngu ar brosesu
  Mae gennych yr hawl i gyfyngu ar brosesu'ch gwybodaeth mewn amgylchiadau penodol.

- Eich hawl i wrthwynebu prosesu
  Mae gennych yr hawl i wrthwynebu prosesu ond pan gaiff ei phrosesu fel rhan o'n tasgau cyhoeddus, neu er ein lles cyfreithlon.

- Eich hawl i gludadwyedd data
  Mae'r hawl hon ond yn berthnasol i'r wybodaeth rydych wedi'i rhoi i ni. Mae gennych yr hawl i ofyn i ni drosglwyddo'r wybodaeth rydych yn ei rhoi i ni o un sefydliad i'r llall, neu ei rhoi i chi. Mae'r hawl hon ond yn weithredol os byddwn yn prosesu'r wybodaeth gyda'ch caniatâd neu o dan gytundeb, neu'n siarad am gytundebu a'r prosesu wedi'i awtomeiddio.

Nid yw'n ofynnol i chi dalu unrhyw dâl am arfer eich hawliau. Mae gennym un mis i ymateb i chi.

Hefyd mae gennych yr hawl i wneud cwyn i awdurdod goruchwyliol os nad ydych yn hapus â'r ffordd y caiff eich data eu prosesu.

Yn y DU, Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yw'r awdurdod goruchwylio, a nodir y manylion cyswllt isod:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth / Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ar-lein/Sgwrs fyw: https://ico.org.uk/make-a-complaint/your-personal-information-concerns/personal-information-concerns/
Llinell gymorth: 0303 123 1113

Mae canllawiau pellach ar sut i arfer eich hawliau ar gael ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth: https://ico.org.uk/your-data-matters/